Cyllid & Thollau EM

# Yr hyn i'w wneud os ydych o'r farn bod y penderfyniad ynglŷn â'ch Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad yn anghywir

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi gwybod i chi'r hyn i'w wneud os ydych o'r farn bod penderfyniad ynglŷn â Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad yn anghywir.

## Ailystyriaeth orfodol

Os ydych o'r farn bod rhywbeth ar eich hysbysiad o benderfyniad yn anghywir, mae gennych, fel arfer, un mis o ddyddiad ein penderfyniad gwreiddiol i ofyn i ni gymryd golwg arall arno. Rydym yn galw hyn yn 'ailystyriaeth orfodol'.

Os ydych yn gofyn i ni wneud hyn, byddwn yn bwrw golwg dros y penderfyniad eto ac yn anfon Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol atoch i egluro'r hyn yr ydym wedi'i benderfynu. Bydd hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i apelio i dribiwnlys annibynnol os nad ydych yn fodlon ar ein penderfyniad. Byddwn yn gohirio unrhyw gamau i adennill gordaliad wrth i ni gynnal yr ailystyriaeth, neu wrth i'ch apêl gael ei hystyried.

## Pryd i ofyn i ni am ailystyriaeth

Bydd yr hysbysiad o benderfyniad y byddwn yn ei anfon atoch yn rhoi gwybod i chi a allwch ofyn i ni ailystyried ein penderfyniad. Gallwch wneud hyn pan fo'r canlynol yn berthnasol:

- rydych yn credu bod penderfyniad yn anghywir
- nid yw'ch dyfarniad yn ystyried newid yn eich amgylchiadau rydych eisoes wedi rhoi gwybod i ni amdano
- mae'ch dyfarniad wedi ei ostwng neu wedi dod i ben

## Pwy all ofyn am ailystyriaeth

Fel arfer yr unigolyn a wnaeth y cais, neu'r person fu'n cael y budd-dal, all ofyn am ailystyriaeth.

Gallwch ofyn i ymgynghorydd annibynnol eich helpu. Os ydych yn benodai ac yn hawlio ar ran rhywun arall, gallwch ofyn am ailystyriaeth ar ran y person hwnnw.

## Sut i ofyn i ni am ailystyried

Gallwch wneud hyn ar bapur neu dros y ffon. Os gwnewch eich cais ar bapur, gwnewch y naill neu'r llall o'r canlynol:

- lenwi ac anfon y ffurflen ailystyriaeth orfodol atodedig atom
- anfon llythyr atom, gan roi gwybod i ni
  - eich enw llawn, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, ac ysgrifennwch 'Ailystyriaeth' ar frig eich llythyr
  - dyddiad y penderfyniad yr hoffech i ni fwrw golwg drosto eto, a beth rydych yn credu sydd o'i le
  - os ydych yn gofyn i ni edrych ar fwy nag un penderfyniad, rhowch ddyddiad pob un ohonynt i ni ynghyd â'ch rhesymau dros anghytuno â phob un

Cofiwch gynnwys tystiolaeth i ategu'ch cais am ailystyriaeth orfodol.

Anfonwch eich ffurflen ailystyriaeth orfodol wedi'i llenwi, neu lythyr, i'r cyfeiriad sydd ar yr hysbysiad o benderfyniad, neu'r cyfeiriad a ddangosir o dan 'Budd-dal Plant' neu 'Lwfans Gwarcheidwad' yn y golofn dde ar y ffurflen hon.

## Dyddiad cau ar gyfer gofyn i ni ailystyried

Mae'n rhaid i chi wneud cais am ailystyriaeth cyn pen mis o ddyddiad ein penderfyniad er mwyn iddo gael ei ystyried. Os ydych yn gwneud cais am ailystyriaeth yn hwyrach na mis o ddyddiad ein penderfyniad, mae'n rhaid bod gennych reswm da pam ei fod yn hwyr a rhowch wybod i ni pam. Mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod cais hwyr, ond byddwn yn esbonio pam ac yn rhoi gwybod i chi am yr hyn i'w wneud nesaf. Ni allwn dderbyn cais i ailystyried 13 mis neu fwy o ddyddiad ein penderfyniad.

## Help

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, bydd angen i chi roi'r manylion canlynol i ni:

- eich enw llawn
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- rhif ffôn yn ystod y dydd

## Oriau agor y Llinell Gymorth

08:30 - 17:00, Dydd Llun - Dydd Gwener

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/cymraeg

## Budd-dal Plant

Os oes angen rhagor o help arnoch:

- ewch i www.gov.uk/budd-dal-plant
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900
- defnyddiwch y *Next Generation Text (NGT) relay* drwy ddeialu 18001 ac yna 0300 200 3100 (ar gyfer pobl â nam ar eu clyw neu leferydd)
- ysgrifennwch atom yn
  Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
  HMRC
  BX9 1ST

Does dim rhaid i chi gynnwys enw stryd, na thref, na blwch Swyddfa'r Post.

## Lwfans Gwarcheidwad

Os oes angen rhagor o help arnoch:

- ewch i www.gov.uk/guardians-allowance
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900
- defnyddiwch y *Next Generation Text (NGT) relay* drwy ddeialu 18001 ac yna 0300 200 3101 (ar gyfer pobl â nam ar eu clyw neu leferydd)
- ysgrifennwch atom yn
  Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
  HMRC
  BX9 1ST

Does dim rhaid i chi gynnwys enw stryd, na thref, na blwch Swyddfa'r Post.

## Os byddwn yn gwneud camgymeriad

Gallwn newid penderfyniadau anghywir y tu allan i'r terfynau amser arferol mewn rhai achosion, ond dim ond os ydym yn gwneud camgymeriad ac nid ydych yn cyfrannu tuag at y camgymeriad hwnnw. Rydym yn galw hyn yn 'wall swyddogol'.

## Yr hyn sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn edrych ar y penderfyniad eto ac yn ysgrifennu atoch i esbonio'r hyn yr ydym wedi penderfynu, gan gynnwys unrhyw newidiadau yr ydym wedi eu gwneud. Os ydych yn fodlon ar y penderfyniad, ni fydd angen i chi wneud unrhyw beth arall.

Os byddwch yn parhau i anghytuno â'n penderfyniad, bydd angen i chi apelio'n uniongyrchol i dribiwnlys annibynnol. Mae'r Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol yn esbonio sut i wneud hyn.

Mae'r tribiwnlys dan ofal Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu'r Gwasanaeth Apeliadau (Gogledd Iwerddon).

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn

- www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service.cy (Cymru, Lloegr a'r Alban)
- www.nidirect.gov.uk/articles/appeal-benefits-decision (Gogledd Iwerddon)

## Os yw'ch amgylchiadau'n newid

- Os oes unrhyw beth yn newid a allai effeithio ar eich taliadau, rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith, ewch i www.gov.uk/rhoi-gwybod-am-newidiadau-budd-dal-plant

## Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y rhoddwn wybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

- Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/government/publications/data-protection-act-dpa-information-hm-revenue-and-customs-hold-about-you

## Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Eich Siarter' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

- I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/eichsiarter

### Cyngor annibynnol

Gallwch gael help a chyngor annibynnol rhad ac am ddim gan nifer o wahanol sefydliadau.

#### Cyngor Ar Bopeth

- Ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ewch i www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/
- Ar gyfer yr Alban, ewch i www.cas.org.uk

#### *Civil Legal Advice* - llinell gyngor genedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr

- www.gov.uk/civil-legal-advice
- ffoniwch 0345 345 4345
- defnyddiwch y *Next Generation Text (NGT) relay* drwy ddeialu 18001 ac yna 0345 609 6677 (ar gyfer pobl â nam ar eu clyw neu leferydd)

Mae gan rai o'r sefydliadau uchod swyddfeydd lleol hefyd sydd wedi eu rhestru:

- yn yr adran fusnes o'r 'Llyfr Ffôn'
- yn y *'Yellow Pages'*
- yn y llyfrgell

Gallwch hefyd gael cyngor gan:

- eich undeb llafur
- cyfreithiwr neu gyfrifydd (ond efallai y bydd angen i chi dalu am hyn)

### Yr Iaith Gymraeg

Ffoniwch 0300 200 1900 i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

### Cwynion

- Mae gwybodaeth am ein gweithdrefn gwyno i'w chael yn www.gov.uk/cwyno-am-cthem

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM am ragor o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Grŵp Gwasanaeth i Gwsmeriaid CThEM
Ebrill 2021 © Hawlfraint y Goron 2021

Cyllid & Thollau EM

# Ffurflen ailystyriaeth orfodol

**Llenwch y ffurflen hon** os ydych am i ni edrych ar ein penderfyniad Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad eto.

## Ynglŷn â chi

**1 Enw llawn**

Teitl - nodwch Mr, Mrs, Miss, Ms neu deitl arall

Enw cyntaf

Enw olaf neu enw teuluol

**2 Cyfeiriad**

Cod post

**3 Eich rhif ffôn symudol neu linell dir, os nad oes gennych ffôn symudol**

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi ynghylch eich hawliad. Mae'n bosibl na fydd ein rhif yn weladwy os byddwn yn eich ffonio.

Beth yw'r diwrnod a'r amser gorau i ni eich ffonio, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 08:00 i 16:00?

Diwrnod

Amser

**4 Dyddiad geni**

D D M M B B B B

**5 Rhif Yswiriant Gwladol**

## Ynglŷn â'ch ailystyriaeth

**6 Pa fudd-dal y mae'ch ailystyriaeth yn ymwneud ag ef?**

Rhowch 'X' mewn blwch yn unig

Budd-dal Plant

Lwfans Gwarcheidwad

## Ynglŷn â'ch ailystyriaeth parhad

**7 A oes gennych gynrychiolydd sy'n eich helpu gyda'r cais hwn, megis perthynas neu Gyngor ar Bopeth?**

Nac oes — Os Nac oes, ewch i gwestiwn 10

Oes — Os Oes, atebwch y cwestiynau canlynol

Ei enw/henw llawn

Enw cyntaf

Enw olaf

Ei gyfeiriad/chyfeiriad

Cod post

Llofnodwch yma i awdurdodi'r person hwn i weithredu ar eich rhan

Dim ond ar gyfer y cais hwn am ailystyriaeth y mae'r awdurdod hwn i weithredu ar eich rhan yn ddilys.

**8 Beth yw dyddiad y penderfyniad yr ydych am i ni edrych arno o'r newydd?**

Dyma'r dyddiad sydd ar yr hysbysiad o benderfyniad y gwnaethom ei anfon atoch.

D D M M B B B B

**9 A ydych chi neu'ch partner, os oes gennych un, hefyd wedi gofyn i ni edrych ar benderfyniad credydau treth o'r newydd?**

Wrth bartner, rydym yn golygu person yr ydych:

- yn briod ag ef
- mewn partneriaeth sifil ag ef
- yn byw gydag ef fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil

Nac ydw/Nac ydy

Ydw/Ydy — Os Ydw/Ydy, ar ba ddyddiad wnaethoch chi ofyn am ailystyriaeth o gredydau treth?

D D M M B B B B

**10 A ydych yn anfon y ffurflen hon yn hwyrach na mis o ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad?**

Nac ydw — Os Nac ydw, llenwch flwch 2 ar y dudalen nesaf

Ydw — Os Ydw, llenwch flychau 1 a 2 ar y dudalen nesaf

## Gwneud cais am ailystyriaeth orfodol

Defnyddiwch y lle gwag isod i roi gwybod i ni pam yr ydych yn anghytuno â'r penderfyniad.

Cofiwch:

- rhowch wybod i ni pam yr ydych yn credu bod y penderfyniad yn anghywir - os ydych yn credu bod yr wybodaeth sydd gennym yn anghywir rhowch wybod i ni beth y credwch yw'r wybodaeth gywir
- os ydych yn gofyn i ni edrych ar fwy nag un penderfyniad eto, rhowch ddyddiad pob un ohonynt i ni, ynghyd â'ch rhesymau dros anghytuno â phob un
- os ydych yn gofyn am ailystyriaeth yn hwyrach na mis o ddyddiad ein penderfyniad, rhowch wybod pam yr oedd eich cais wedi'i ohirio
- os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch ddalen arall o bapur - rhowch eich enw, rhif Yswiriant Gwladol, ac ysgrifennwch 'Ailystyriaeth' ar frig unrhyw ddalenni papur ychwanegol
- mae'n rhaid i chi gynnwys tystiolaeth i ategu'ch cais am ailystyriaeth orfodol - os na wnewch hynny, mae'n bosibl na fydd ein penderfyniad yn newid

### 1 Y rheswm pam mae fy nghais yn fwy na mis o ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad yr wyf yn anghytuno ag ef

### 2 Pam nad wyf yn cytuno â'r penderfyniad

Datgysylltwch yma

### Datganiad

Rwyf yn datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.
Os oes rhywun wedi ei benodi'n swyddogol i weithredu ar eich rhan (penodai), dylai lofnodi isod ar eich rhan.

**Llofnod**

**Dyddiad**

D D M M B B B B

### Datganiad parhad

Cofiwch, dim ond ar gyfer y cais hwn am ailystyriaeth y mae'r awdurdod hwn i weithredu ar eich rhan yn ddilys.
Os ydych am i rywun weithredu ar eich rhan (cyfryngwr) ar gyfer eich holl faterion ynghylch credydau treth, Lwfans Gwarcheidwad a/neu Fudd-dal Plant, bydd yn rhaid i chi naill ai:

- mynd i GOV.UK i lenwi a dychwelyd ffurflen TC689 'Credydau Treth a Budd-dal Plant: caniatáu i rywun arall weithredu ar eich rhan'
- gofyn am TC689 drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad ar dudalen 1

### Yr hyn i'w wneud nawr

Sicrhewch eich bod wedi ateb y cwestiynau perthnasol ar y ffurflen hon a'i llofnodi.

Datgysylltwch y ffurflen hon a'i hanfon i'r cyfeiriad ar frig ein hysbysiad o benderfyniad.

Cofiwch, os yw'ch cais am ailystyriaeth y tu allan i'r terfyn amser o un mis, llenwch flwch 1 uchod. Os na wnewch hyn, mae'n bosibl y bydd oedi i'ch cais.

At ddefnydd CThEM

Dyddiad

D D M M B B B B